# Canllaw arfer da: gwarchod gwiwerod coch yn ystod gweithrediadau rheoli coetir a gwaith coed

*Fersiwn 1.0 Mai 2026*

Os ydych chi'n dibynnu ar ddilyn arferion da i gadw o fewn y gyfraith, yna:

- mae'n **rhaid** cymryd mesurau osgoi rhesymol i warchod gwiwerod coch
- **dylech** ddilyn cymaint o'r pum cam gweithredu gorau i wella cynefin i wiwerod coch ag y gallwch

# Cyflwyniad

Mae'r wiwer goch yn un o'r rhywogaethau o famaliaid mwyaf mewn perygl yng Nghymru. Yn hanesyddol, roedd y wiwer goch yn eang ei gwasgariad ar draws coetiroedd Cymru, ond mae ei phoblogaeth wedi dioddef gostyngiadau difrifol dros y ganrif ddiwethaf oherwydd colled cynefinoedd, cystadleuaeth gan y wiwer lwyd oresgynnol, a chlefyd, yn enwedig feirws brech y wiwer, sy'n angheuol i'r wiwer goch ond yn cael ei gario'n asymptomatig gan y wiwer lwyd.

Heddiw, mae gwiwerod coch wedi'u cyfyngu i dri prif gadarnle poblogaeth yng Nghymru:

- Ynys Môn a rhannau o Wynedd – ar Ynys Môn, mae gwiwerod llwyd wedi cael eu dileu'n llwyddiannus, gan arwain at boblogaeth gref o wiwerod coch sy'n cynyddu o ran niferoedd. Mae gwiwerod coch bellach yn lledu yng ngogledd Gwynedd, wedi'u hybu gan ymdrechion cadwraeth a rhyddhau anifeiliaid a fagwyd mewn caethiwed (Ymddiriedolaeth Gwiwerod Coch Cymru).
- Coedwig Clocaenog (Gogledd-ddwyrain) – poblogaeth hirsefydlog a gefnogir gan ymdrechion cadwraeth ac atgyfnerthu wedi'u targedu (Ymddiriedolaeth Gwiwerod Coch Clocaenog).
- Canolbarth Cymru (Dyffryn Tywi a'r coedwigoedd cyfagos) – yr unig boblogaeth sydd wedi parhau'n naturiol heb ailgyflwyno, ac sy'n wahanol yn enetig (Prosiect Gwiwerod Coch Canolbarth Cymru).

Dyma'r prif safleoedd ar gyfer cadwraeth y wiwer goch yng Nghymru – gweler Cynllun Diogelu'r Wiwer Goch yng Nghymru. Mae'n debygol bod gwiwerod coch yn bresennol mewn coetiroedd yn yr ardaloedd hyn. Mae'r poblogaethau hyn yn parhau i fod yn ynysig a dan fygythiad, ond maent yn sefydlog mewn ardaloedd lle mae rheolaeth weithredol a mesurau rheoli ar gyfer y wiwer lwyd.

Mae gan bob prif safle barth clustogi cysylltiedig hefyd lle mae mesurau rheoli, fel y rheini ar gyfer y wiwer lwyd, yn cael eu targedu.

Gall gwiwerod coch fyw mewn coetiroedd coniferaidd, llydanddail a chymysg, ac fe'u ceir weithiau mewn parciau a gerddi. Ond ar dir mawr Cymru lle mae gwiwerod llwyd yn bresennol, mae gwiwerod coch wedi'u cyfyngu'n bennaf i goedwigoedd conwydd yr ucheldir. Mae eu deiet yn amrywiol, gyda hadau coed a ffrwythau'n ffurfio'r craidd ohono, wedi'u hategu gan flagur, blodau, ffyngau, aeron, cennau a phryfed – yn enwedig lindys, a fwyteir gan fenywod cyn bridio. Mae coetiroedd gyda chymysgedd o rywogaethau coed yn darparu cyflenwad bwyd mwy dibynadwy drwy gydol y flwyddyn, ac mewn coedwigoedd conwydd cymysg mae tiriogaethau wedi'u cysylltu'n agos ag argaeledd hadau.

# Sut mae gwiwerod coch yn cael eu gwarchod?

Mae gwiwerod coch yn rhywogaeth a warchodir yn y DU o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi gymryd camau rhesymol i osgoi eu niweidio mewn ffordd a fyddai'n drosedd, fel eu lladd neu eu hanafu'n fwriadol, neu ddifrodi, dinistrio neu rwystro mynediad i'w nythod yn fwriadol neu'n ddi-hid, neu eu haflonyddu tra byddant yn defnyddio eu nythod.

Er y dylech chi bob amser anelu at osgoi unrhyw niwed i rywogaethau a warchodir, mae amddiffyniad ar gael os bydd niwed yn digwydd i wiwerod coch fel ‘canlyniad damweiniol i weithrediad cyfreithlon’ ac ‘na ellid yn rhesymol fod wedi'i osgoi’. I ddibynnu ar yr amddiffyniad hwn, bydd angen i chi allu dangos eich bod wedi cymryd pob cam rhesymol i leihau effaith eich gweithrediad ar y rhywogaeth. Mae dangos eich bod wedi dilyn y mesurau yn y canllaw arfer da hwn yn un ffordd o ddangos eich bod wedi gwneud hyn.

Mae gan weithgarwch rheoli coetir priodol rôl bwysig i'w chwarae wrth gynnal yr amodau cynefin y mae eu hangen ar wiwerod coch. Fodd bynnag, gall gweithrediadau coedwigaeth fod yn niweidiol hefyd os na chânt eu rheoli mewn modd sensitif.

Gall fod yn anodd iawn dod o hyd i nythod. Mae tystiolaeth yn dangos nad yw tua 85% yn weladwy o'r ddaear. Hyd yn oed ar ôl adnabod un, bydd yn anodd penderfynu a yw'n weithredol, neu a yw'n nyth gwiwer goch yn hytrach na nyth gwiwer lwyd neu nyth rhywogaeth arall. Felly, wrth weithio mewn un o brif safleoedd y wiwer goch, neu ardal arall lle gwyddys bod gwiwerod coch yn bresennol, mae'n debyg mai osgoi cwympo coed yn ystod eu tymor bridio yw'r unig ffordd effeithiol o osgoi dinistrio unrhyw nythod sy’n cael eu defnyddio. Os byddwch chi'n cwympo coed yn ystod y tymor bridio, bydd angen i chi allu dangos ei bod hi'n rhesymol gwneud hynny, a pha fesurau ychwanegol a gymeroch chi i reoli'r risg uwch o niwed.

Os na allwch osgoi trosedd drwy ddilyn y canllawiau hyn, efallai y bydd ecolegydd cymwys yn gallu datblygu ffyrdd gweithio amgen, penodol i'r safle, i'ch galluogi i lynu wrth y gyfraith.

Nid oes gan Cyfoeth Naturiol Cymru y pŵer i roi trwyddedau sy'n caniatáu niwed i rywogaethau a warchodir yn y DU at ddibenion coedwigaeth.

# A yw gwiwerod coch yn defnyddio eich coetir?

Gyda Chymdeithas y Mamaliaid, rydym wedi cynhyrchu canllaw, *Rhywogaethau gwarchodedig mewn coetiroedd: canllaw maes ar gyfer rheolwyr coetiroedd yng Nghymru*, sy'n cynnwys cyngor penodol ar sut i gynnal arolygon i wirio am rywogaethau a warchodir.

## Gwirio am gofnodion

Yn gyntaf, dylech wirio a yw eich coetir o fewn un o'r prif safleoedd ar gyfer cadwraeth y wiwer goch yng Nghymru. Dylech gymryd yn ganiataol bod gwiwerod coch yn bresennol mewn coetiroedd yn yr ardaloedd hyn.

Os nad ydych chi o fewn y prif safle ond eich bod chi o fewn clustogfa, dylech chi wirio am gofnodion o'r wiwer goch o fewn 2 km i'ch safle gwaith a thybio bod rhai yn bresennol os dewch chi o hyd i unrhyw rai.

Os oes grŵp gwiwerod coch lleol, efallai y byddant yn gallu rhoi cyngor.

Os byddwch yn gwneud cais am drwydded cwympo coed, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwirio am gofnodion. Os yw eich coetir o fewn prif safle, neu os byddwn yn dod o hyd i gofnodion sy'n awgrymu presenoldeb gwiwerod coch, byddwn fel arfer yn ychwanegu amod amgylcheddol at eich trwydded cwympo coed yn ei gwneud yn ofynnol i chi ddilyn y mesurau yn y canllaw hwn.

## Arolwg ar droed

Os ydych chi o fewn clustogfa, ond heb ddod o hyd i unrhyw gofnodion, dylech chi ddefnyddio'ch arolwg ar droed o hyd i wirio am dystiolaeth o wiwerod coch, gan gymryd yn ganiataol eu bod nhw'n bresennol os dewch o hyd i unrhyw rai.

Os cymerir yn ganiataol bod gwiwerod coch yn bresennol, rydym yn argymell yn gryf i beidio cwympo coed yn ystod y tymor bridio. Os na allwch wneud hyn, bydd angen i'ch arolwg ar droed nodi unrhyw nythod gwiwerod sy'n cael eu defnyddio o fewn yr ardal waith y mae angen eu gwarchod, a gall hyn fod yn anodd.

Oni bai eich bod mewn ardal lle mae'r wiwer lwyd yn absennol, bydd yn anodd gwahaniaethu rhwng y nythod a ddefnyddir gan y wiwer goch a'r wiwer lwyd. Gellir defnyddio technegau megis trapiau camera i gadarnhau presenoldeb y wiwer goch, er y gall hyn gymryd cryn dipyn o amser ac efallai na fydd yn ymarferol ym mhob achos.

Gall gwiwerod coch adeiladu nyth newydd mewn diwrnod neu ddau yn unig, felly bydd hefyd angen cynnal arolwg cyn cychwyn ychydig cyn i'r gwaith cwympo coed ddechrau er mwyn sicrhau nad oes unrhyw nythod newydd sy'n cael eu defnyddio mewn unrhyw lannerch y gwneir gwaith ynddi yn ystod y tymor bridio.

Bydd *Rhywogaethau gwarchodedig mewn coetiroedd: canllaw maes ar gyfer rheolwyr coetiroedd yng Nghymru* yn cynorthwyo unigolyn cymwys i wneud hyn.

Cyn y gallwch chi weithredu'r mesurau osgoi yn yr adran nesaf, bydd angen i chi fod wedi sefydlu'r canlynol:

1. P'un a ydych chi o fewn prif safle ar gyfer y wiwer goch, neu a yw cofnodion, arwyddion maes neu dystiolaeth arall yn dangos bod gwiwerod coch yn defnyddio'r coetir, ac, os felly, a ydych chi'n bwriadu cwympo coed yn ystod y tymor bridio
2. Lleoliad unrhyw nythod gwiwerod coch sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd

# Mesurau osgoi rhesymol i warchod gwiwerod coch

Os ydych chi'n dibynnu ar ddilyn yr arferion da hyn i gadw o fewn y gyfraith, bydd angen i chi lynu wrth y mesurau canlynol. Os na allwch wneud hyn, efallai y bydd ecolegydd cymwys yn gallu awgrymu mesurau lliniaru penodol i'r safle a allai ganiatáu ichi wyro oddi wrth y mesurau safonol hyn heb achosi trosedd. Os nad yw hyn yn bosibl, efallai y bydd angen i chi newid eich cynlluniau.

Os byddwch yn dod o hyd i dystiolaeth o'r rhywogaeth yn annisgwyl yn ystod gwaith, dylech ystyried a allwch gymhwyso'r mesurau yn y canllaw hwn neu geisio cyngor gan ecolegydd cymwys.

Wrth weithio mewn coetir o fewn prif safle ar gyfer y wiwer goch, neu lle mae tystiolaeth yn dangos bod gwiwerod coch yn bresennol, rhaid glynu wrth y canlynol:

**1. Gwarchod nythod sy'n cael eu defnyddio yn ystod y tymor bridio**

- Oni bai na ellir ei osgoi, peidiwch â chynnal unrhyw weithrediadau cwympo coed mewn ardaloedd gwiwerod coch rhwng 1 Chwefror a 30 Medi.
- Os oes rhaid i chi weithio yn ystod y cyfnod hwn, gwnewch yn siŵr nad yw coed sydd â nythod sy'n cael eu defnyddio yn cael eu cwympo yn y cyfnod rhwng 1 Chwefror a 30 Medi.

**2. Cynllunio unrhyw waith llwyrgwympo fel y gall gwiwerod coch symud i goetir a gedwir**

- Dylai gweithgarwch cwympo coed (ar unrhyw adeg o'r flwyddyn) gael ei gynnal tuag at ardal o goetir a gedwir fel y gall unrhyw wiwerod ddianc i loches ddiogel a pheidio â chael eu dal yn yr ardal waith.

# Y pum cam gweithredu gorau i wella cynefin ar gyfer gwiwerod coch

Gall rheoli eich coetir yn unol â Safon Coedwigaeth y DU ddod â buddion sylweddol i fywyd gwyllt. Byddai'r camau gweithredu isod yn arbennig o werthfawr i wiwerod coch, a byddant hefyd yn cefnogi llawer o rywogaethau eraill:

**1. Sicrhau cyflenwad bwyd drwy gydol y flwyddyn**

Cynhaliwch gymysgedd o rywogaethau coed sy'n darparu hadau, ffrwythau, blagur, blodau, aeron, ffyngau a chen drwy gydol y flwyddyn. Dylid cynnwys rhywogaethau sy'n cynnal lindys – mae'r rhain yn bwysig oherwydd bod benywod yn eu bwyta cyn bridio. Wrth greu cynlluniau cwympo coed, cadwch rywogaethau coed buddiol. Mae angen gadael cymysgedd digonol o rywogaethau coed yn sefyll er mwyn sicrhau cyflenwad bwyd drwy gydol y flwyddyn.

**2. Cynllunio ailstocio ar gyfer anghenion gwiwerod**

Er mwyn lleihau cystadleuaeth rhwng y wiwer goch a’r wiwer lwyd, mae angen dulliau gwahanol lle mae'r ddwy rywogaeth yn bresennol.

Ar Ynys Môn, lle nad yw’r wiwer lwyd yn bresennol mwyach, gall ailstocio ganolbwyntio ar blannu a chadw coed llydanddail hadau mawr (y dderwen, y ffawydden, y gastanwydden bêr, y gollen, y bisgwydden, y griafolen). Bydd rhywogaethau o binwydd (pinwydden yr Alban a’r binwydden gamfrig), pyrwydden Sitca neu byrwydden Norwy a chonwydd eraill yn ychwanegu amrywiaeth a hefyd yn darparu ffynonellau pwysig o fwyd.

Mewn prif safleoedd ar y tir mawr, dylid cyfuno pyrwydden Norwy a rhywogaethau pinwydd (pinwydden yr Alban a’r binwydden gamfrig) â choed dail llydan hadau bach fel bedw a helyg. O fewn coedwigoedd conwydd ar y tir mawr, dylai rhywogaethau o byrwydd Norwy a phinwydd (pinwydden yr Alban a'r binwydden gamfrig) gynrychioli tua 12% o arwynebedd y goedwig.

**3. Cynnal cysylltedd coedwigoedd**

Osgowch ddarnio ac ynysu ardaloedd fforio allweddol. Defnyddiwch systemau coedamaeth bach eu heffaith a choedwig gorchudd di-dor, gan gynnwys ardaloedd dargadw tymor hir, gwarchodfeydd naturiol, a safleoedd ailstocio cysylltiedig o wahanol oedrannau.

**4. Cynnal strwythur oedran amrywiol**

Sicrhewch fod strwythur oedran cymysg i ddarparu arwynebedd digonol o goed o oedran cynhyrchu hadau yn barhaus. Hyrwyddwch amrywiaeth strwythurol i ddarparu bwyd cyson a chyfleoedd nythu.

**5. Rheoli gwiwerod llwyd**

O fewn prif safleoedd ffocal a'u lleiniau clustogi, bydd monitro a rheoli gwiwerod llwyd yn helpu i ddiogelu poblogaethau a’u helpu i ehangu.

# Gwybodaeth bellach

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth ddefnyddiol am dechnegau arolygu a dulliau rheoli cadarnhaol ar gyfer y wiwer goch yma:

[Rhywogaethau gwarchodedig mewn coetiroedd: canllaw maes ar gyfer rheolwyr coetiroedd yng Nghymru]

[Cynllun Diogelu’r Wiwer Goch yng Nghymru] 2018 Fforwm Gwiwerod Cymru

Cynllun Gweithredu Cymru i Reoli'r Wiwer Lwyd 2018 Llywodraeth Cymru

Darllenwch fwy am y rhywogaeth yma: Ymddiriedolaeth Gwiwerod Coch Cymru